



Arweiniad i ganolfannau sy'n cyflwyno gwaith ymgeiswyr i CBAC ar gyfryngau symudol.

Mae sawl canolfan arholi wedi holi CBAC ynglŷn ag amgryptio gwaith ymgeiswyr cyn ei gyflwyno ar ddisg/gyriant *USB*.

Nid yw CBAC yn gofyn i ganolfannau wneud hyn; y ganolfan sydd i benderfynu p'un a oes angen gwneud hyn, yn unol â'u polisiau diogelu data a'u polisiau diogelwch eu hunain.


Y dulliau sy'n cael eu hargymell yw archifau Zip neu *Windows BitLocker To Go*. Os caiff unrhyw ddulliau eraill eu defnyddio (er enghraifft ffeiliau gweithredadwy sy'n echdynnu eu hunain), efallai na fydd hi'n bosibl i ni eu derbyn gan y byddant yn cael eu rhwystro gan ein meddalwedd diogelwch.

Rydym yn argymhell bod canolfannau nad oes ganddynt feddalwedd presennol ar gyfer creu archifau wedi'u hamgryptio yn defnyddio 7-zip:

Defnyddio 7-zip i greu archif wedi'i hamgryptio.

Dull archifo, sy'n rhad ac am ddim, ar gyfer Windows yw 7-zip. Gwnewch yn siŵr bod y fersiwn diweddaraf gennych o <https://www.7-zip.org/download.html>. (Peidiwch â'i lwytho i lawr o safleoedd eraill oherwydd gallai'r rhain gynnwys maleiswedd).

- De-gliciwch ar y ffolder yr ydych yn dymuno ei hamgryptio a dewiswch 'ychwanegu at yr archif.../add to archive...'
- Gwnewch yn siŵr mai'r 'AES-256' yw'r dull amgryptio – hwn yw'r dull cryfaf
- Gwnewch yn siŵr mai 'zip' yw fformat yr archif



Rydym yn cynghori eich bod yn defnyddio cyfrinair neu ymadrodd cyfrin i amgryptio'r ffeil. Rydym hefyd yn cynghori eich bod yn defnyddio cyfrinair gwahanol ar gyfer pob archif. Dylai cyfrineiriau gynnwys o leiaf 15 nod er mwyn sicrhau lefel resymol o ddiogelwch.

Os nad oes generadur cyfrinair ar hap gennych yn barod, gellir defnyddio'r systemau ar-lein canlynol:

- https://www.fourmilab.ch/javascript/pass_phrase.html
- <https://www.grc.com/passwords.htm>

Gallwch anfon y ffon *USB* yn cynnwys yr archif wedi'i hamgryptio fel arfer. Dylid anfon cyfrineiriau i amgryptio@cbac.co.uk. Dylid nodi rhif y ganolfan, rhif yr ymgeisydd/rhifau'r ymgeiswyr, y pwnc a'r lefel yn glir yn yr e-bost.

Noder: os na fyddwn yn gallu adnabod y ffeil a'r cyfrinair yn glir, ni fyddwn yn gallu cael mynediad at y waith.

(Noder bod anfon cyfrineiriau dros e-bost yn dderbyniol yn yr achos hwn gan eu bod yn cael eu hanfon gan ddefnyddio dull gwahanol i'r ffon *USB*. **Peidiwch** ag anfon y ffon *USB* a'r cyfrinair gyda'i gilydd!)

Mae canllawiau ar ddefnyddio *Bitlocker To Go* ar gael yma:

<https://www.techrepublic.com/blog/windows-and-office/secure-your-usb-drives-with-bitlocker-to-go-for-windows-7/>

Ni all CBAC gynnig arweiniad ynghylch creu cyfryngau wedi'u hamgryptio â *Bitlocker*, dylai canolfannau ymgynghori â'u hadrannau TG eu hunain ar sail achosion unigol.